OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2024 Rhif 475 (Cy. 77)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Broad Street a High Street, Llanfair-ym-Muallt, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2024

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *8 Ebrill 2024* |
| *Yn dod i rym* | *15 Ebrill 2024* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A483, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Broad Street a High Street, Llanfair-ym-Muallt, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2024 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 15 Ebrill 2024.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â’r gwaith sy’n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 22:00 o’r gloch ar 15 Ebrill 2024 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion.

### Gwaharddiad

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

### Cymhwyso

**4.** Nid yw’r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn ei dangos.

### Atal dros dro

**5.** Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd (yr A483) (Llanfair-ym-Muallt, Powys) (Traffig Unffordd) 1983(**1**) drwy hyn wedi eu hatal dros dro mewn cysylltiad â’r darnau o’r gefnffordd o’r enw y Strand, Church Street a West Street yn ystod y cyfnodau hynny pan fydd y gwaharddiad a bennir yn erthygl 3 o’r Gorchymyn hwn yn weithredol.

### Cyfnod para’r Gorchymyn hwn

**6.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 8 Ebrill 2024

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

(**1**) O.S. 1983/1460.

**YR ATODLEN**

Y darn o'r gefnffordd o'r enw Broad Street, Llanfair-ym-Muallt sy'n ymestyn o bwynt 10 metr i'r gorllewin o'i chyffordd â'r A470 Castle Street hyd at ganolbwynt ei chyffordd â King's Head Lane.

Y darn o'r gefnffordd o'r enw High Street, Llanfair-ym-Muallt sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â King's Head Lane hyd at bwynt 3 metr i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Strand Street.

Y darn o'r gefnffordd o'r enw High Street, Llanfair-ym-Muallt sy'n ymestyn o bwynt 3 metr i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Strand Street hyd at bwynt 3 metr i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Market Street.